

Asesiad Strwythuredig

2025

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau
Ambiwlans Cymru

Rhagfyr 2025

Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei aildddefnyddio, mae'n rhaid i'ch aildddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn aildddefnyddio.

Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad	4
Ffeithiau a ffigurau allweddol	6
Ein canfyddiadau	7
Argymhellion	25
1 Ynglŷn â'n gwaith	28
2 Argymhellion archwilio blaenorol	31
3 Ymateb y rheolwyr i'n hargymhellion	35
4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	38
Amdanom ni	41

Ciplwg ar yr archwiliad

Yr hyn y gwnaethom edrych arno

- 1 Fe wnaethom edrych ar ba mor dda mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn cael ei lywodraethu ac a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Fe wnaethom edrych ar bedwar maes yn benodol:
 - pa mor dda mae ei fwrdd yn gweithio;
 - sut mae'n olrhain risgiau, perfformiad, ansawdd gwasanaeth, ac argymhellion;
 - sut mae'n cynhyrchu cynlluniau a strategaethau allweddol; a
 - sut mae'n rheoli ei gyllid.
- 2 Fe wnaethom edrych hefyd ar gynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran gweithredu argymhellion o:
 - adroddiadau asesiadau strwythuredig blaenorol;
 - ein hadroddiad o 2024 ar arbedion costau.

Pam mae hyn yn bwysig

- 3 Mae cyrff GIG yn parhau i wynebu amrywiaeth eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r angen i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau i ddelio â chyllid cyfyngedig, galw cynyddol, ôl-groniadau triniaeth, prinder gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Mae'n bwysicach nag erioed felly i fyrddau cyrff GIG fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol cryf ar waith. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd i'w hunain, i'r cyhoedd, ac i randdeiliaid allweddol eu bod yn cymryd y camau cywir i ddarparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel ac i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 4 Canfuwyd gennym fod gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd effeithiol wedi'i gefnogi gan drefniadau llywodraethu da. Mae systemau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Bwrdd yn effeithiol ac yn cael eu cryfhau trwy ddatblygiad pellach o fframwaith sicrwydd y bwrdd. Mae cynllun ansawdd newydd yn cael ei roi ar waith, ond mae'r gallu i'w gyflawni yn debygol o fod yn anodd heb gyllid pwrpasol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adrodd heriau o ran bodloni targedau perfformiad allweddol. Cyflwynwyd newidiadau i'r ffordd y mesurir ymatebion ambiwlansys yn ystod 2025, â mwy o bwyslais ar ganlyniadau cleifion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar gwybod pa effaith mae'r newidiadau yn ei chael ar ansawdd y gwasanaeth.
- 5 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig eglur ac wedi'i gymeradwyo ac wedi cymeradwyo cyfres o amcanion llesiant yn ddiweddar. Mae hefyd yn cynnal adnewyddiad prydlon o'i strategaeth hirdymor. Mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer sylweddol o raglenni newid ar y gweill, â chapasiti cyfyngedig i'w cefnogi. Mae'n oedi datblygiad rhai cynlluniau corfforedig felly ac yn gohirio rhai gweithgareddau a gynlluniwyd i ddiogelu capasiti ar gyfer blaenoriaethau allweddol.
- 6 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gyllid yn dda i gyflawni ei dyletswyddau ariannol allweddol yn ystod 2024-25. Yn gadarnhaol, mae'n lleihau ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd. Ac eto, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu pwysau ariannol cynyddol heriol eleni sy'n creu risgiau i sicrhau ei sefyllfa ragweledig o adennill costau. Fodd bynnag, mae angen egluro fforddiadwyedd rhai o gynlluniau strategol yr Ymddiriedolaeth.

Yr hyn a argymhellir gennym

- 7 Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i'r Ymddiriedolaeth yn y meysydd canlynol:
 - Cryfhau gwaith rheoli polisi
 - Gwellu proses adrodd fframwaith sicrwydd presennol y bwrdd;
 - Egluro'r gallu i gyflawni ei chynllun ansawdd; ac

- Adrodd ar unrhyw broblemau o ran cyflwyno papurau Bwrdd a phwyllgorau yn brydlon.

Ffeithiau a ffigurau allweddol

- O fewn fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth Llywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth ar lefel 1 ar hyn o bryd.
- Yn 2024-25, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth fodloni ei dargedau ariannol trwy adennill costau o ran gwariant refeniw a chyfalaf.
- Yn 2024-25, nod yr Ymddiriedolaeth oedd arbed £6.42 miliwn ond llwyddodd i arbed £6.84 miliwn yn y pen draw. Fodd bynnag, daeth £3.1 miliwn o arbedion swyddi gwag ar y staff.
- Cyflwynwyd datganiadau ariannol 2024-25 yr Ymddiriedolaeth i gael eu harchwilio'n allanol yn brydlon, a chyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar 27 Mehefin 2025.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr ym mis Awst 2025 i gadarnhau ei chymeradwyaeth o Gynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 yr Ymddiriedolaeth.

- Er bod yr Ymddiriedolaeth yn wynebu rhai heriau ariannol annisgwyl yn ystod y flwyddyn, mae'n parhau i ragweld sefyllfa o adennill costau ar gyfer 2025-26.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi'r pedwar argymhelliad asesiad strwythuredig a oedd heb eu gweithredu ar waith yn llawn ers ein hadroddiad diwethaf.

Ein canfyddiadau

Effeithiolrwydd y Bwrdd a pha mor agored ydyw

Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol, yn myfyrio ar ddysgu, ac yn chwilio am gyfleoedd i wella'n barhaus. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth roi sylw i'w pholisïau sydd heibio eu dyddiad o hyd

Pa mor agored yw busnes y Bwrdd i'r cyhoedd

- 8 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyflawni ei fusnes mewn ffordd dryloyw. Mae'r Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio ffyrdd o gylchdroi lleoliadau cyfarfodydd ledled Cymru i'w gynorthwyo ymhellach i godi proffil y Bwrdd a chysylltu mwy â staff ledled y wlad. Gall aelodau'r cyhoedd anfon cwestiynau i mewn cyn bob cyfarfod i'r Bwrdd eu hystyried. Mae ein hadolygiad yn dangos bod y Bwrdd yn ymateb i'r cwestiynau hyn yn eglur ac yn effeithiol. Gall y cyhoedd wneud cais i arsylwi'r Bwrdd yn fyw neu wyllo'r recordiadau ar ôl y cyfarfod trwy ddolenni ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

- 9 Er nad yw cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu darlledu na'u recordio, gall y cyhoedd wneud cais i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod pwyllgor. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cyhoeddi papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau wythnos cyn pob cyfarfod ar ei gwefan fel mater o drefn.
- 10 Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o sesiynau Bwrdd a phwyllgor preifat, gan eu cadw ar gyfer materion sensitif neu gyfrinachol yn unig. Ar ôl pob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn cyhoeddi papur Rhybuddio, Sicrhau, Cynghori ar y wefan yn gyflym. Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y pwyntiau allweddol a drafodwyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn lanlwytho'r cofnodion llawn wedyn, ar ôl iddynt gael eu cadarnhau yn y cyfarfod canlynol.

Cefnogi ymddygiad effeithiol gan y Bwrdd

- 11 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau llywodraethu eglur a chyffredinol gyfredol sy'n helpu'r Bwrdd a'i bwyllgorau i redeg yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ac adolygiad rheolaidd o Reolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo.
- 12 Mae'r Ymddiriedolaeth yn hysbysu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am ddiffyg cydymffurfiad â Rheolau Sefydlog. Ers dechrau 2025, bu hysbyswyd am dri achos o ddiffyg cydymffurfiad yn unig a oedd yn gysylltiedig â chaffael digidol, taliadau staff, a methu â chymeradwyo cofnodion. Er bod Rheolau Sefydlog yn nodi y dylid cyflwyno papurau o leiaf pum diwrnod cyn cyfarfod Bwrdd neu bwyllgor, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn adrodd unrhyw gyflwyniadau hwyr fel diffyg cydymffurfiad a gofnodwyd â'r rheoli hyn ar hyn o bryd. Er mai anabl y bydd papurau hwyr yn cael eu cyflwyno, byddai hysbysu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gwella tryloywder ac yn hybu cyflwyniadau prydlon.
- 13 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyhoeddi datganiadau o fuddiant cyfredol a'i Gofrestr o Roddion a Lletygarwch ar ei gwefan. Mae'r tîm corfforaethol yn parhau i godi ymwybyddiaeth ar-lein ac mewn gorsafoedd ambiwlans o'r gofyniad i wneud datganiadau o roddion a lletygarwch.

- 14 Yn 2023, adroddodd yr Ymddiriedolaeth mai dim ond 14% o'i pholisïau oedd yn gyfredol. Er i ni weld gwelliant yn 2024, mae cynnydd wedi arafu ers hynny. Ar y gyfradd bresennol, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl mai dim ond 50% o bolisïau fydd yn gyfredol erbyn Ionawr 2026.

Effeithiolrwydd cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor

- 15 Mae Bwrdd a phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth yn gweithio yn effeithiol ac yn gwneud cworwm. Mae eu hagendâu yn canolbwyntio ar feysydd risg, ac mae rhaglenni gwaith yn gyfredol. Mae eu strwythur pwyllgorau yn cyd-fynd yn gyffredinol â phrif nodau a risgiau'r sefydliad. I wella hyn ymhellach, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried sut mae ei bwyllgorau yn gweithio a sut y gallent wella. Yn benodol, mae'r grŵp hwn wedi myfyrio ar swyddogaeth y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd, nawr bod yr Ymddiriedolaeth wedi sicrhau statws Ymddiriedolaeth Prifysgol.
- 16 Mae cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor yn cael eu rhedeg yn dda, ag agendâu sy'n canolbwyntio ar risgiau mwyaf a materion pwysig y sefydliad. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pryderon allweddol wedi cynnwys pwysau ariannol cynyddol, oediadau hir cyn trosglwyddo, a pherfformiad gwael yn ymdrin â chwynion ac ymchwiliadau. Ceir lle o hyd i'r Bwrdd dreulio mwy o amser ar strategaeth hirdymor, a disgwylir y bydd hyn yn digwydd wrth i'r Ymddiriedolaeth ddechrau adolygu ei gweledigaeth strategol a fframwaith sicrwydd y bwrdd yn 2025–26.
- 17 Mae papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn brydlon ac yn cynnwys gwybodaeth eglur o ansawdd uchel. Mae cyflwyniadau yn hawdd eu dilyn ac yn dod gyda phapurau eglurhaol sy'n cyflwyno'r materion, yr argymhellion, a'r camau allweddol yn eglur. Pan fo'n ddefnyddiol, mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn darparu gwybodaeth gefndir ychwanegol y tu allan i'r brif agenda drwy'r swyddogaeth 'ystafell ddarllen' sydd newydd gael ei sefydlu ac sy'n storio papurau cyd-destunol ychwanegol. Ar ôl cyfarfodydd, mae pwyllgorau yn parhau i rannu pwyntiau trafod pwysig a phroblemau gyda'r Bwrdd drwy eu Hadroddiadau ar y Prif Bwyntiau Rhybuddio, Sicrhau, a Chynghori.

- 18 Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn sefydliad a enwir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Cytunodd ar ei amcanion llesiant ym mis Mawrth 2025, ond mae'n dal ar y camau cynnar o roi egwyddorion datblygu cynaliadwy ar waith mewn cyfarfodydd pwyllgor. Ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth y nodau hyn yn ddiweddar at bapurau eglurhaol y Bwrdd a'r pwyllgorau. Dylai hyn helpu awduron a phwyllgorau i ystyried sut mae trafodaethau a phenderfyniadau yn effeithio ar eu hamcanion llesiant.

Clywed gan staff a defnyddwyr gwasanaeth

- 19 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i glywed profiadau uniongyrchol gan staff a chleifion ar ddechrau cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch yn clywed hanesion cleifion ac mae'r pwyllgor Pobl a Diwylliant yn clywed hanesion gan staff. Rhennir hanesion hefyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd, a dangosir hanesion cleifion a staff bob yn ail. Yn 2024, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gwella'r broses o olrhain camau gweithredu a dysgu yn dilyn hanesion staff sydd bellach yn adlewyrchu'r broses a ddefnyddir ar gyfer hanesion cleifion.
- 20 Ceir dulliau parhaus da i aelodau'r bwrdd wrando ar staff. Bob mis, mae'r Prif Weithredwr yn arwain sesiwn 'fyw' lle gall staff o bob rhan o'r sefydliad leisio eu barn a siarad am faterion pwysig. Mae aelodau'r bwrdd hefyd yn cyfarfod staff trwy ddigwyddiadau gwobrwyo ac ymweliadau. Mae hyn yn cynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, gwobrau staff a thrwy waith y tîm Profiad Cleifion a Chyfranogiad Cymunedol. Roedd yr aelodau o'r Bwrdd i ni siarad â nhw yn teimlo bod ganddynt fecanweithiau da ar waith i ymgysylltu â staff a chleifion ac i glywed ganddynt.

Cydluniant y Bwrdd a gwelliant parhaus

- 21 Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn sefydlog i raddau helaeth yn ystod y 12 mis diwethaf. Newidiodd y swydd Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant ym mis Tachwedd 2024, gan rannu'r swydd yn ddwy. Gadawodd y Prif Swyddog Gweithredol y sefydliad ym mis Mehefin 2025 ac yn dilyn trefniadau dros dro, dechreuodd y Prif Swyddog Gweithredol newydd ym mis Hydref 2025. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu rheoli'n dda, â chdydlyniant ar draws y Bwrdd yn amlwg yn ein harsylwadau a'n trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth. Ni fu unrhyw Gyfarwyddwyr Anweithredol newydd yn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymuno â'r rhaglen bwrdd uchelgeisiol, i ddatblygu arbenigedd aelodau annibynnol newydd ar gyfer y dyfodol.
- 22 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal hunanasesiadau blynyddol i adolygu pa mor dda y maent yn gweithio. Mabwysiadodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ddull effeithiolrwydd newydd eleni gyda'r nod o wella eu cyfraddau ymgysylltu â'r pwyllgor. Fe wnaeth is-grŵp llai o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gyfarfod drwy'r flwyddyn i fynd i'r afael â'r cwestiynau niferus ym Mhecyn Cymorth Effeithiolrwydd Pwyllgorau Archwilio a Risg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mawrth 2025, fe wnaeth yr aelodau adolygu a thrafod yr adborth. Canfu'r pwyllgor bod y broses, er iddi ddefnyddio llawer o adnoddau, wedi cryfhau ansawdd yr adborth ac arwain at nifer o gamau gwella i'r pwyllgor.
- 23 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i redeg ei Rhaglen Datblygu'r Bwrdd ei hun yn ystod 2024–25. Cafwyd presenoldeb da yn i sesiynau bob dau fis, gan gwmpasu amrywiaeth o bynciau. Mae'r rhain wedi cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y ddyletswydd ansawdd a gonestrwydd, a chynllunio ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025–28. Dywedodd aelodau'r Bwrdd wrthym eu bod yn credu fod y sesiynau yn ddefnyddiol.
- 24 Mae cynlluniau ar gyfer Rhaglen Datblygu'r Bwrdd wedi'i chefnogi'n allanol yn parhau ac yn destun proses dendro ar adeg ein hadolygiad. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gobeithio y bydd y rhaglen hon ar waith erbyn mis Mawrth 2026. Mae gwaith hefyd yn parhau i wella rhaglenni cynefino i aelodau pwyllgor.

Darparu sicrwydd bwrdd

Mae newidiadau diweddar a pharhaus i fframweithiau sicrwydd yn cynorthwyo gwelliant, ond mae mwy i'w wneud, gan gynnwys angen i sicrhau y gellir cyflawni ei gynllun ansawdd gydag adnoddau presennol.

Rheoli risgiau strategol

- 25 Daeth Rhaglen Trawsnewid Rheoli Risg (2021-24) yr Ymddiriedolaeth i ben y llynedd, ond mae gwaith i gryfhau fframwaith sicrwydd y bwrdd yn parhau. Mae asesiadau strwythuredig blaenorol wedi nodi bod fframwaith sicrwydd y bwrdd wedi canolbwyntio'n bennaf ar risgiau corfforaethol, yn hytrach na'r risgiau strategol ehangach sy'n gysylltiedig ag amcanion hirdymor yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cyfyngu ei effeithiolrwydd o ran cynorthwyo trosolwg y Bwrdd o risgiau i gyflawniad strategol.
- 26 I wella ei ddull o ymdrin â risg, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth ymgynghorwyr allanol (BDO Ltd) ddechrau 2024, yn rhannol i ddarparu canllawiau arfer gorau ar gyfer datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd mwy strategol. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi bwriadu rhoi fersiwn ddigidol ddiwygiedig ar waith erbyn nawr, nid oes ateb awtomatig priodol wedi cael ei nodi eto. Er bod cynnydd hefyd wedi cael ei gyfyngu gan gyfyngiadau o ran adnoddau, mae penodiad diweddar y Rheolwr Risg pwrpasol bellach yn cynnig y capasiti sydd ei angen i roi'r gwaith risg yn ôl ar y trywydd iawn. Gallai cynlluniau'r Ymddiriedolaeth i ddiweddarau ei strategaeth hirdymor yn ystod 2026-27 gynnig cyfle i'w groesawu i gysoni fframwaith sicrwydd y bwrdd â datblygiad amcanion strategol newydd posibl.
- 27 Yn y cyfamser, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnig trosolwg rheolaidd o fframwaith sicrwydd y bwrdd. Adolygir y fframwaith llawn gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, tra bod pwyllgorau eraill yn goruchwyllo'r risgiau sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb. Hefyd, mae'r Bwrdd wedi adolygu ei chwe datganiad parodrwydd i dderbyn risg yn ystod sesiynau datblygu'r bwrdd o fewn y 12 mis diwethaf.

- 28 Fe wnaeth archwiliad mewnol 2024–25 o reoli risg roi sgôr sicrwydd rhesymol. Canfu fod adrodd risg i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol, ond tynnodd sylw at yr angen am weithredu pellach pan fydd fframwaith sicrwydd y bwrdd diwygiedig ar waith, gan gynnwys diweddarau dogfennau allweddol a darparu hyfforddiant staff.
- 29 Er gwaethaf y sylw cynharach ar yr angen i gryfhau trosolwg o risg i amcanion strategol, canfu ein hadolygiad o fframwaith sicrwydd y bwrdd ei fod yn cynnig sylw da i risgiau corfforaethol a bod yr Ymddiriedolaeth yn adolygu rheolaethau ac unrhyw fylchau o ran sicrwydd yn rheolaidd. Fodd bynnag, prin iawn fu'r newidiadau i sgoriau risg yn ystod 2024-25 er gwaethaf cynnydd rhesymol ar gamau lliniaru. Mae hyn yn bennaf oherwydd dylanwad ffactorau allanol, gan gynnwys oedi cyn trosglwyddo sydd, er gwaethaf gwelliant yn y misoedd diwethaf, yn dal i fod yn uchel.
- 30 Wrth i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd mwy strategol, ceir cyfle hefyd i wella eglurder a defnyddioldeb adrodd fframwaith sicrwydd y bwrdd. Er enghraifft, gallai cynnwys dangosfwrdd i olrhain statws camau gweithredu a'u heffaith ar sgoriau risg helpu i ddangos cynnydd yn fwy eglur a chefnogi trosolwg mwy cytbwys.

Rheoli perfformiad

- 31 Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth ei Fframwaith Ansawdd a Rheoli Perfformiad wedi'i ddiweddarau ym mis Mawrth 2025. Mae hwn yn gwella'r defnydd o feincnodi, arolygon defnyddwyr, ystyriaeth o ddyletswydd ansawdd statudol yr Ymddiriedolaeth, a chamau i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio mewnol.

- 32 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn goruchwyllo perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd ac yn briodol. Mae pob pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau sy'n benodol i'w gyfrifoldebau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu'r metrigau yn ei adroddiad perfformiad bob blwyddyn i wneud yn siŵr eu bod yn olrhain cynnydd yn effeithiol. Ym mis Mai 2025, dywedodd aelodau'r Bwrdd y byddai'n well ganddynt lai o fesurau â mwy o bwyslais sy'n cysylltu'n well â nodau strategol y sefydliad. Fe wnaethant hefyd ofyn am ansawdd data gwell a chymorth i'w helpu i ddeall y data. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio ar y gwelliannau hyn bellach.
- 33 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno modelau gwasanaeth newydd yn rhan o'i rhaglen trawsnewid clinigol. Fodd bynnag, nid yw effaith y newidiadau hyn wedi cael ei hadolygu'n ffurfiol eto, a disgwylir i werthusiad ffurfiol ddechrau yn ystod hydref 2025.
- 34 Mae'r ffordd y mae perfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn cael ei fesur wedi newid yn y misoedd diwethaf. Lansiodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Perfformiad y Gwasanaeth Ambiwylans Brys diwygiedig yn rhan o gynllun peilot 12 mis¹. Mae'r categorïau galwadau blaenorol, sef coch, oren a gwyrdd, wedi cael eu diwygio fel y disgrifir isod:
- Porffor: Pobl sydd wedi cael ataliad y galon neu anadlu y tu allan i'r ysbyty.
 - Coch: Argyfyngau eraill sy'n fygythiad i fywyd, gan gynnwys salwch neu anaf difrifol lle ceir perygl uchel o ataliad y galon neu anadlu.
 - Oren: Achosion brys sydd angen gofal ambiwlans cyflym, gan ddilyn canllawiau clinigol, a chludiant cyflym i ysbyty neu ganolfan arbenigol.
 - Melyn: Achosion sydd angen asesiad clinigol. Gallai'r rhain arwain at gludiant i'r ysbyty, atgyfeiriad i wasanaeth cymunedol, neu driniaeth yn y fan a'r lle.
 - Gwyrdd: Achosion llai brys y gellir eu trin yn y fan a'r lle neu eu hatgyfeirio i wasanaethau rheolaidd ar gyfer y gofal cywir.

Nod y newidiadau hyn yw cefnogi canolbwynt perfformiad cynyddol ar ganlyniadau cleifion yn hytrach nag amseroedd ymateb. Er enghraifft, y prif

¹ Rhoddwyd y categorïau porffor a choch ar waith o 1 Gorffennaf 2025 a'r bwriad yw i'r categorïau oren, melyn a gwyrdd gael eu rhoi ar waith o 2 Rhagfyr 2025.

fesur ar gyfer galwadau porffor fydd canran y bobl yr adferwyd curiad eu calon yn dilyn ataliad y galon. Yn rhan o'r model newydd, bydd sgrinio clinigol cyflym yn digwydd ar gyfer yr holl alwadau nad ydynt wedi'u dosbarthu'n borffor neu'n goch i asesu'r dull gorau o driniaeth ar gyfer y claf hwnnw. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i wybod pa effaith fydd hyn yn ei chael ar berfformiad. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n casglu data amrywiol i ddeall yn well unrhyw effaith ar ganlyniadau cleifion. Mae hyn yn anodd o gofio fod y data canlyniadau yn cael eu storio ar draws systemau gwahanol Fyrddau Iechyd ledled Cymru.

- 35 Yn ogystal â newidiadau i fesurau a metrigau perfformiad, bu newidiadau sylweddol i rai o fetrigau perfformiad hirsefydlog yr Ymddiriedolaeth yn y misoedd diwethaf. Yn nodedig, roedd oediadau cyn trosglwyddo ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2025 yr isaf y maent wedi bod ers pedair blynedd, er bod y darlun ledled Cymru yn dal i amrywio'n fawr. Mae nifer y cleifion sy'n canslo eu hambiwls hefyd wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, er bod perfformiad ar gyfer rhai dangosyddion clinigol fel dychweliad cylchrediad naturiol yn gwella, mae eraill fel amseroedd galwad i'r drws ar gyfer achosion strôc, wedi gwaethygu.

Monitro ansawdd a diogelwch

- 36 Ym mis Mai 2025, lansiodd yr Ymddiriedolaeth gynllun ansawdd strategol newydd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth, gofal iechyd seiliedig ar werth, a systemau rheoli ansawdd. Mae'r cynllun gweithredu ategol yn cyflwyno'r camau i ddarparu'r cynllun dros ei gylch oes tair blynedd. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i fod ag adnoddau staffio ac ariannol digonol i ddarparu'r cynllun, nid yw'r cynllun wedi'i gefnogi gan unrhyw gyllid pwrpasol. O ganlyniad, mae cyflawni'r 121 o gamau a restrwyd i'w darparu dros dair blynedd yn debygol o fod yn anodd iawn.
- 37 Mae gan yr Ymddiriedolaeth atebolrwydd eglur am lywodraethu ansawdd clinigol. Mae'r Uwch Dîm Ansawdd yn goruchwyllo darpariaeth y cynllun ansawdd strategol newydd ac mae'r Grŵp Rheoli Ansawdd yn cefnogi'r system rheoli ansawdd. Fodd bynnag, rydym wedi tynnu sylw'n flaenorol at bryderon am bresenoldeb isel yn y cyfarfodydd grŵp hyn. Mae ein hadolygiad o bapurau diweddar yn dangos bod presenoldeb yn dal i fod yn amrywiol.

- 38 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch yn goruchwyllo amrywiaeth o sicrwydd a phryderon a uwchgyfeiriwyd. Mae'r rhain yn cynnwys materion a amlygwyd gan y Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol, a thrwy fetrigau ansawdd yn yr adroddiad gweithio i wella. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau'r adroddiad hwn gyda gwell data, camau y mae'n eu cymryd i gyflawni ei dyletswydd gonestrwydd gyfreithiol, a dysgu sefydliadol. Mae'r adroddiad dysgu o farwolaethau newydd, a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn, yn dangos bod gan yr Ymddiriedolaeth system fwy systematig ar waith i adolygu a dysgu o farwolaethau cleifion.
- 39 Er bod prosesau sicrwydd wedi gwella, mae metrigau ansawdd yn dangos tanberfformiad mewn rhai meysydd. Mae'r rhain yn cynnwys oediadau yn ymateb i gwynion, terfynau amser archwilio a fethwyd, ac ymatebion araf i bryderon ac adroddiadau crwneriaid. Er i'r tîm Gweithio i Wella dyfu, ceir ôl-groniad o ymchwiliadau, ac mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a chrwneriaid wedi codi pryderon. Mae bron i 80% o adroddiadau dysgu o ddigwyddiadau yn cael eu cyflwyno'n hwyr hefyd. I fynd i'r afael â'r problemau hyn, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth gynllun gweithredu adfer ym mis Awst 2025. Fodd bynnag, gallai cyfyngiadau capasiti presennol wneud ei gyflawni yn anodd. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn monitro cynnydd yn agos ac mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio yn adrodd yn rheolaidd ar hyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch.

Olrhain a monitro argymhellion

- 40 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwella ei threfniadau i olrhain a monitro argymhellion. Mae wedi gweithio gydag lechyd a Gofal Digidol Cymru i greu system olrhain awtomatig newydd. Ar ôl ei rhoi ar waith yn ddiweddarach yn 2025, bydd yr Ymddiriedolaeth yn hyfforddi staff ar ei defnydd a bydd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gallu archwilio cynnydd ar argymhellion yn haws.

- 41 Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi parhau i ddefnyddio'r fersiwn bresennol (ar Excel) o'r traciwr i olrhain gweithrediad argymhellion. Er na chawsant eu hadrodd mewn dau gyfarfod dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r data yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn cwblhau mwy o argymhellion archwilio yn brydlon, â llai o derfynau amser yn cael eu gwthio yn ôl. Mae hyn yn awgrymu bod y sefydliad yn gwella o ran pennu amserlenni realistig a chymryd camau dilynol ar weithredoedd archwilio.
- 42 Yn 2024, fe wnaethom godi pryderon bod yr Ymddiriedolaeth yn cwblhau rhai argymhellion heb ddigon o dystiolaeth. Fodd bynnag, mae pethau wedi gwella. Cwblhawyd y tri argymhelliad o'n Hasesiad Strwythuredig yn 2024 yn effeithiol ac yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd yn deall bod yr Ymddiriedolaeth yn ymateb i argymhellion Archwilio Mewnol ac yn eu cwblhau'n briodol.

Paratoi strategaethau a chynlluniau

Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth hirdymor eglur, cynllun tymor canolig, ac amcanion llesiant sydd newydd gael eu cytuno, ond mae pwysau ar gapasiti yn arwain at ohirio neu oedi rhai cynlluniau.

Llunio strategaethau a chynlluniau allweddol

- 43 Mae strategaeth 2018-30 yr Ymddiriedolaeth, 'Sicrhau Rhagoriaeth' yn amlinellu'n briodol gweledigaeth i reoli galw yn wahanol trwy newid sut mae'n darparu gwasanaethau. Mae'n canolbwyntio ar gynorthwyo a thrin wy o bobl mewn cymunedau i leihau'r galw am wasanaethau ambiwlans brys. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adnewyddu ei strategaeth yn 2026 ac wedi cychwyn digwyddiadau yn 2025 i helpu i lunio'r fersiwn newydd. Yn dilyn hyn, bydd yn datblygu strategaeth glinigol ategol newydd wedyn.

- 44 Yn 2024, lansiodd yr Ymddiriedolaeth rhaglen trawsnewid model clinigol newydd i wella sut y darperir gofal clinigol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn arwain y gwaith hwn, wedi'i chefnogi gan gomisiynwyr a phartneriaid. Mae'r dull yn cyd-fynd â'r weledigaeth strategol a'i nod yw cryfhau cymorth clinigol yn ystod galwadau a chynnig mwy o opsiynau ar gyfer gofal wyneb yn wyneb. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno modelau gwasanaeth newydd yn rhan o'i rhaglen trawsnewid model clinigol. Nid yw wedi adolygu effaith y newidiadau hyn er ein bod yn deall y disgwylir i werthusiad ffurfiol ddechrau yn ystod hydref 2025.
- 45 Lluniwyd Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 gan adborth mewnol ac allanol. Roedd hyn yn cynnwys hanesion cleifion, arolygon staff, a sgysiaau gyda'r Cyd-bwyllgor Comisiynu. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth hefyd wella ei hymgysylltiad â Chyfarwyddwyr Anweithredol ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy gynnal dwy sesiwn frifio datblygu'r bwrdd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2024. Derbyniodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad y drafft llawn wedyn ar 18 Mawrth 2025, cyn cymeradwyaeth y Bwrdd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Wedi hynny, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r camau hyn yn dangos cynnydd, ond ceir lle i wella o hyd, yn enwedig trwy rannu fersiynau drafft yn gynharach, fel bod gan aelodau fwy o amser i roi adborth a hysbysu ei ddatblygiad, yn hytrach na chraffu ar gynllun sydd wedi'i ffurfio'n llawn.
- 46 Ar 30 Mehefin 2024, gwnaed yr Ymddiriedolaeth yn un o'r cyrff penodedig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn dilyn hyn, mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi pennu ei hamcanion llesiant cyntaf, yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy. I helpu i lunio'r amcanion, gofynnodd yr Ymddiriedolaeth, wedi'i chefnogi gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen traws-gyfarwyddiaeth, am adborth trwy gyfryngau cymdeithasol, Llais, a'i phanel dinasyddion. Fodd bynnag, fe wnaeth yr ymgysylltu bara 14 diwrnod yn unig ac ni ymatebodd llawer o bobl. Ochr yn ochr â'i Gynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28, cymeradwyodd y Bwrdd dri amcan llesiant yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2025, a dyma nhw:
- cyflogwr cymdeithasol gyfrifol a chynhwysol;
 - sefydliad arloesol a chynaliadwy; a
 - darparwr gofal rhagweithiol, hygyrch a theg.

- 47 Fel dull interim, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi nifer fach o ymrwymïadau o dan bob amcan llesiant, sy'n cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau presennol yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn bragmataidd o gofio bod cynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn diweddaru ei strategaeth hirdymor yn 2026. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wrthi'n datblygu ffyrdd o fesur cynnydd yn erbyn ei hamcanion llesiant y mae'n bwriadu eu cynnwys yn ei Hadroddiad Blynyddol nesaf. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys gwaith priodol yng nghynlluniau archwilio'r blynyddoedd i ddod yn yr Ymddiriedolaeth i asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud, yn unol â'i ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf.
- 48 Mae'r Ymddiriedolaeth yn blaenoriaethu adnewyddu rhai cynlluniau ac ymestyn oes eraill. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun ansawdd strategol 2025-28 a chynllun iechyd a llesiant 2025-29. Disgwylwyd i'r Cynllun Pobl a Diwylliant gael ei adolygu yn 2025. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolaeth yn awgrymu i'r Bwrdd y dylai barhau i ddefnyddio'r fersiwn bresennol, gan ei bod yn dal i ddiwallu anghenion y sefydliad.
- 49 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli sawl rhaglen newid fawr. Mae hyn yn creu pwysau o ran capasiti a risgiau posibl. Mae mentrau trawsnewid fel y rhaglen trawsnewid model clinigol, ymateb i fesurau perfformiad newydd, rhoi'r cynllun ansawdd ar waith, a bwrw ymlaen ag adolygiadau ansawdd, ynghyd â chamau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn gofyn am fewnbwn o bob rhan o'r sefydliad. Mae Archwiliad Mewnol wedi codi pryderon am gapasiti cyfyngedig i gefnogi newid a diffyg trosolwg ar gyfer rhai prosiectau. Mae trafodaethau Bwrdd a phwyllgor yn dangos bod yr aelodau yn ymwybodol o'r pwysau hyn. Mewn ymateb, mae swyddogion gweithredol wedi cynnal gweithdai yn ddiweddar i ystyried opsiynau fel oedi a gohirio camau blaenoriaeth is yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Sicrwydd y Bwrdd ar weithio partneriaeth

- 50 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i gefnogi nodau cyffredin. Mae bellach yn rhan o bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (neu eu his-grwpiau) ledled Cymru. Mae'n gweithio gyda byrddau iechyd yn lleol a thrwy Gyd-bwyllgor Comisiynu lefel genedlaethol a rhaglenni Bwrdd Rhaglen y Chwe Nod.
- 51 Mae'r Ymddiriedolaeth yn hysbysu'r Bwrdd am weithgareddau partneriaeth trwy ddiweddariadau Cynllun Tymor Canolig Integredig, ei phapur niwed y gellir ei osgoi, ac adroddiadau'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd. Ym mis Mai, cyflwynodd adroddiad ymgysylltu chwe misol newydd, a roddodd drosolwg i'r Bwrdd o flaenoriaethau partneriaeth ac ymgysylltu allweddol. Disgwylir i adroddiadau yn y dyfodol gynnig mwy o fanylion, gan ddangos sut mae blaenoriaethau, gan gynnwys amcanion llesiant a fframwaith perfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn cael eu rhoi ar waith.

Monitro'r gwaith o gyflawni strategaethau/cynlluniau

- 52 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer goruchwyllo'r gwaith o gyflawni cynlluniau corfforaethol yn gymharol effeithiol. Mae pob adran o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi'n eglur yr hyn y mae angen i'r Ymddiriedolaeth ei wneud ar draws tair blynedd y cynllun, sy'n cynorthwyo'r Bwrdd Trawsnewid Strategol yn ei swyddogaeth o fonitro ac adrodd ar gynnydd yn ystod y flwyddyn.
- 53 Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd yn parhau i herio a chefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau corfforaethol. Mae gwaith craffu'r pwyllgorau wedi arwain i'r Ymddiriedolaeth gryfhau adrodd ac atebolrwydd. Mae hyn yn cynnwys egluro swyddogaeth grwpiau gweithredu a chryfhau adrodd ar flaenoriaethau gweinidogol gan ddefnyddio sgoriau Coch, Melyn, Gwyrdd². Mae'r newidiadau hyn yn dangos ymrwymiad eglur gan yr Ymddiriedolaeth i sicrhau gafael a throsolwg digonol ar waith cyflawni cynlluniau.

² Coch, Melyn a Gwyrdd

- 54 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth y rhan fwyaf o gamau gweithredu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024-25. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniad llawn Unedau Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd rhesymol yn 2025-26, ar ôl cyflawni ychydig dros hanner y camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer chwarter gyntaf y flwyddyn, ond bu'n rhaid iddi ohirio nifer i ddyddiadau hwyrach oherwydd problemau capasiti.

Rheoli cyllid

Mae cyllid yn ystod y flwyddyn yn cael ei reoli'n dda a cheir llai o ddibyniaeth ar arbedion untro. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder ynghylch fforddiadwyedd rhai cynlluniau.

Cyflawni amcanion a dyletswyddau ariannol

- 55 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gyflawni ei gyfrifoldebau ariannol yn 2024–25. Cofnododd swm bach o £70,000 o arian dros ben ac adenillodd gostau dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2022 a 2025. Hefyd, gwariodd yr Ymddiriedolaeth ei chyllideb gyfalaf fel y bwriadwyd ac aeth y tu hwnt i'r targed o 95% ar gyfer cydymffurfio â Pholisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus.
- 56 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos diffyg o ran refeniw ar gyfer y flwyddyn hyd yma. Fodd bynnag, mae'n dal i ddisgwyl adennill costau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025–26. Ar adeg ein hadolygiad, roedd cynlluniau gwariant cyfalaf yn dal i gael eu cwblhau, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ragweld y bydd yn cyd-fynd â'r gyllideb eleni. Mae hefyd ar y trywydd iawn i fodloni ei thargedau o dan Bolisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus.

Trefniadau cynllunio ariannol

- 57 Mae gwaith cynllunio ariannol yr Ymddiriedolaeth wedi cefnogi'r gallu i sicrhau sefyllfa o adennill costau yn y blynnyddoedd diwethaf. Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Ariannol 2025-26 yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2025 yn rhan o broses cymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.

- 58 Mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2025–26 yn cyflwyno'r prif risgiau a heriau ariannol. Fel cyrff GIG eraill, prin yw'r lle yng nghynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer costau annisgwyl neu i fethu targedau arbedion. Mae rhai pwysau costau hysbys eisoes wedi cael eu gwireddu, fel penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio ag ariannu'r cynnydd i yswiriant gwladol cyflogwyr. Ni ddisgwyliwyd pwysau eraill, fel costau uwch o Gronfa Risg Cymru pan ddatblygwyd y Cynllun gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw llygad agos ar y risgiau ariannol hyn ac yn diweddarau'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd yn rheolaidd ar sut y mae'n eu rheoli ac yn lliniaru diffyg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.
- 59 Mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes da o sicrhau arbedion. Gorgyflawnodd yn erbyn ei darged arbedion cyffredinol ar gyfer 2024-25 o £417,000. Yn gadarnhaol, dibynnodd llai ar arbedion anghylchol nag mewn blynyddoedd blaenorol gan fod 54% o'r arbedion a wnaed yn 2024-25 yn gylchol. Fodd bynnag, o'r 46% a oedd yn weddill arbedion anghylchol a sicrhawyd, daeth 97% o swyddi corfforaethol gwag.
- 60 Mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2025-26 yn cynnwys targed arbedion o £8.5 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i 2.7% o incwm yr Ymddiriedolaeth. Gan adeiladu ar lwyddiant y llynedd, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i 73% o'r arbedion (£6.225 miliwn) ddod o gynlluniau cylchol sy'n sicrhau manteision hirdymor. Fodd bynnag, er ei bod yn gorgyflawni yn erbyn ei tharged arbedion cyffredinol ym mis Mehefin 2025, mae ei chynlluniau arbedion cylchol yn tangyflawni. Ceir dibyniaeth eto ar swyddi corfforaethol gwag i fodloni targed arbedion yr Ymddiriedolaeth, nad yw'n sefyllfa gwbl gynaliadwy.
- 61 Byddai cynllunio ariannol yr Ymddiriedolaeth yn elwa o archwiliadau costau a fforddiadwyedd mwy eglur ar draws yr holl gynlluniau, gan gynnwys ei chynllun ansawdd strategol. Hefyd, tynnodd arsylwadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn ystod y flwyddyn sylw at bwysau gweithredu parhaus a nodau uchelgeisiol ar gyfer gwasanaethau digidol yr Ymddiriedolaeth. I gefnogi cynnydd, dylai'r Ymddiriedolaeth ddangos sut mae ei chynlluniau yn cymryd i ystyriaeth yr adnoddau sydd eu hangen, ac esbonio sut y bydd y rhain yn cael eu hariannu, trwy gyllidebau yn ystod y flwyddyn a gadarnhawyd ac ymrwymadau ar gyfer blynyddoedd ariannol i ddod.

Trefniadau rheoli ariannol

- 62 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull rheoli ariannol da. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd yn adolygu ei Rheolau Sefydlog a'i Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn rheolaidd, yn fwyaf diweddar ym mis Medi 2025. Caiff achosion o ddiffyg cydymffurfiad eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd ar raglen waith gwrth-dwyll ragweithiol a chynhwysfawr yr Ymddiriedolaeth ac yn adrodd ar eitemau gwerth uchel a brynwyd, colledion, taliadau arbennig, a gweithredoedd tendr sengl.
- 63 Fodd bynnag, er eu bod yn eglur, gellid gwella adroddiadau ar golledion a thaliadau a thendrau sengl drwy ychwanegu siartiau cymharu a naratif atodol i ddangos ac esbonio newidiadau i niferoedd a gwerthoedd dros amser. Byddai hyn yn helpu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i nodi tueddiadau ac allanolion yn haws.
- 64 Fe wnaeth Archwiliad Mewnol adolygu trefniadau rheoli contractau'r Ymddiriedolaeth ym mis Mehefin 2025. Canfuwyd ganddynt fod yr Ymddiriedolaeth angen prosesau rheoli contractau mwy eglur a chyson. Mae hefyd angen ffordd o gyfrifo faint o amser sydd ei angen ar staff i reoli contractau yn iawn, ac i neilltuo cyfrifoldeb am hyn yn ffurfiol ar draws y sefydliad. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth system rheoli contractau ar hyn o bryd. Wrth baratoi ar gyfer yr archwiliad hwn, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen i fapio contractau presennol, er iddi hysbysu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg nad oes ganddi'r adnoddau na'r systemau sydd eu hangen i gynnal y gofrestr contractau yn y dyfodol. Wrth ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad, mae'r Ymddiriedolaeth wedi codi ymwybyddiaeth o bolisiâu a chyfrifoldebau am reoli contractau drwy ei mewnrodd staff.

- 65 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2024–25 yn brydlon, fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol. Dangosodd ein harchwiliad welliannau eglur i ansawdd y cyfrifon o’u cymharu â’r flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, dim ond nifer fach o fân wallau a ganfuwyd, ac fe’u cywirwyd yn gyflym gan y rheolwyr. Adolygwyd y datganiadau ariannol diwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac fe’u cymeradwywyd gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd ar 24 a 26 Mehefin 2025, yn eu trefn. Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod (lân) ar 27 Mehefin 2025.

Monitro perfformiad ariannol

- 66 Ceir trosolwg cryf o berfformiad o ran gwariant ariannol ac arbedion o hyd. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno adroddiad cyllid manwl i bob cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a’r Bwrdd. Mae’r adroddiad cyllid yn darparu trosolwg da o berfformiad y flwyddyn gyfredol, gan gynnwys tabl sy’n dangos pa mor dda y mae cynlluniau arbedion cylchol ac anghylchol yn perfformio.
- 67 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran ymateb i argymhellion ar adrodd ariannol o’n hadolygiadau Trefniadau Arbedion Cost (2024) ac Asesiad Strwythuredig (2024). Mewn ymateb, mae wedi cryfhau eglurder ei waith adrodd ar arbedion a pherfformiad ariannol.
- 68 Mae aelodau’r Bwrdd yn dangos dealltwriaeth eglur o’r sefyllfa ariannol bresennol ac yn cynnig lefel briodol o graffu a her i gynorthwyo gwelliant yn ystod cyfarfodydd pwyllgor. Ym mis Mai 2025, adroddodd yr Ymddiriedolaeth i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei bod yn gweithio i ddatblygu dangosfwrdd cyllid newydd a fydd yn cynorthwyo gwaith dadansoddi ymhellach.

Argymhellion

70 Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith.

Argymhellion

A1 I gryfhau llywodraethu a thryloywder, dylai'r Ymddiriedolaeth gofnodi ac adrodd yn ffurfiol unrhyw bapurau Bwrdd neu bwyllgor a gyflwynir ar ôl y terfyn amser cyhoeddi o 5 diwrnod fel achos o ddiffyg cydymffuriad â'i Rheolau Sefydlog (**Paragraff 12**).

A2 Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiweddarau ei pholisi ar bolisiau i wneud y broses adolygu yn fwy effeithlon ac ymarferol. Dylai hyn gynnwys camau a dulliau mwy eglur i droi polisiau yn fathau eraill ddogfennau rheoli ysgrifenedig (fel gweithdrefnau neu ganllawiau), pan fo hyn yn adlewyrchu eu diben a'u defnydd yn well (**Paragraff 14**).

A3 I gryfhau trosolwg o risg strategol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod papurau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnig crynodeb eglur, lefel uchel o newidiadau i sgoriau risg dros amser. Dylai hyn gael ei atodi gan olwg gyfredol ar gamau cysylltiedig, gan gynnwys eu statws presennol ac unrhyw lithriant (**Paragraff 30**).

A4 I sicrhau ei bod yn dal yn bosibl cyflawni'r Cynllun Ansawdd Strategol, dylai'r **Ymddiriedolaeth** sicrhau bod y sicrwydd a ddarperir i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch yn cwmpasu effaith cyllid a staffio ar weithrediad. Dylai hyn gynnwys diweddariadau ar ba un a yw'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar gyflawni camau a gynlluniwyd a chanlyniadau strategol (**Paragraff 36**).

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar y meysydd canlynol ar gyfer y cyfnod Mai 2025 i Fedi 2025:

- Pa mor dda mae'r bwrdd yn gweithio well the board works.
- Pa mor dda mae'r bwrdd yn goruchwyllo risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn olrhain argymhellion.
- Pa mor dda mae'r corff yn paratoi strategaethau a chynlluniau allweddol.
- Pa mor dda mae'r corff yn rheoli ei gyllid.

Ni wnaethom edrych ar drefniadau gweithredu'r corff.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Aeth ein harchwiliad i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Bwrdd yn cyflawni ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw?
- A oes dull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau?
- A oes dull corfforaethol cadarn o lunio cynlluniau strategol a goruchwyllo eu cyflawniad?
- A oes dull corfforaethol cadarn o ymdrin â chynllunio, rheoli a pherfformiad ariannol?

Meini prawf

Lluniwyd ein cwestiynau archwilio gan:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau.
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol.
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru.

- Y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Argraffiad).

Dulliau

Fe wnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a'r pwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys fframwaith sicrwydd y bwrdd.
- Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Polisiâu a gweithdrefnau perthnasol.
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld y rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Y Cadeirydd;
- Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Elusennau;
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;
- Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion;
- Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;
- Y Prif Weithredwr (Mehfin 2025);
- Y Prif Weithredwr Interim (Awst 2025);
- Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau;
- Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol;
- Y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio;
- Y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu;
- Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd; a'r
- Cyfarwyddwr Pobl.

Fe wnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;
- Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;
- Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion; a'r
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

2 Argymhellion archwilio blaenorol

Argymhellion a oedd heb eu cwblhau o adroddiadau asesiad strwythuredig blaenorol

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran gweithredu argymhellion a oedd heb eu cwblhau o adroddiadau asesiad strwythuredig blaenorol.

Argymhelliad	Statws
Argymhelliad 1 2024 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod aelodau y Bwrdd yn cael cyfle i drafod a chraffu ar fersiwn ddrafft o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, naill ai mewn cyfarfod ffurfiol neu drwy ei chylchredeg y tu allan i gyfarfodydd, cyn iddi gael ei chyflwyno i'w chadarnhau a'i chymeradwyo'n ffurfiol. Dyddiad cwblhau targed: Mawrth 2025	Wedi'i gwblhau (gweler paragraff 45).
Argymhelliad 2 2024 Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiweddarau ei Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad i adlewyrchu newidiadau diweddar mewn swyddogaethau mewnol allweddol. Dyddiad cwblhau targed: Mai 2025	Wedi'i gwblhau (gweler paragraff 31).

Argymhelliad	Statws
Argymhelliad 3 2024 Dylai'r Ymddiriedolaeth gymhwyso i straeon staff y broses sydd ganddi ar waith ar gyfer straeon cleifion er mwyn rhoi eglurder ar sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi cofnodi'r stori, sut y defnyddiwyd y stori at ddibenion sicrwydd neu welliant, a sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r unigolyn a rannodd ei brofiad. Dyddiad cwblhau targed: Mai 2025	Wedi'i gwblhau (gweler paragraff 19).
Argymhelliad 2 2023 Gwella'r modd yr adroddir yn chwarterol ar brofiad cleifion wrth y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion (QuEST) trwy sicrhau cydbwysedd rhwng adborth cadarnhaol a negyddol a darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud i ymdrin â'r themâu negyddol sy'n codi yn yr adroddiad. Dyddiad cwblhau targed: Medi 2023	Wedi'i gwblhau.

Argymhellion o’n Hadolygiad o Drefniadau Arbedion Cost yn 2024

Mae’r tabl isod yn nodi’r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran gweithredu argymhellion o’n Hadolygiad o Drefniadau Arbedion Cost yn 2024.

Argymhelliad	Statws
Argymhelliad 1 2024 Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o nodi a chyflawni arbedion rheolaidd. Bydd hyn yn ei galluogi i leihau ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd mewn meysydd fel rheoli swyddi gwag a gosod ei chynlluniau arbedion ariannol ar sail fwy cynaliadwy. Dyddiad cwblhau targed: March 2025	Wedi'i gwblhau (gweler paragraff 59)
Argymhelliad 2 2024 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith o fynd i'r afael â bylchau mewn setiau sgiliau staff o ran nodi a chyflawni cyfleoedd arbedion ac effeithlonrwydd. Dyddiad cwblhau targed: Mehefin 2025	Wedi'i gwblhau.

Argymhelliad	Statws
Argymhelliad 3 2024 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei hadroddiadau arbedion i'r Bwrdd a'r F&PC, yn gyson neu'n darparu esboniad clir o'r gwahaniaethau rhwng y perfformiad arbedion a gofnodwyd. Bydd hyn yn helpu dealltwriaeth, lleihau dryswch, a chynnal hygredd adrodd ar arbedion yr Ymddiriedolaeth. Dyddiad cwblhau targed: August 2025	Wedi'i gwblhau.
Argymhelliad 4 2024 Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn gweithredu'r hyn a ddysgwyd o'i hadolygiad Gateway diweddar o'i Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol. Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn cryfhau ei threfniadau arbedion ymhellach ac yn gwneud y mwyaf o'i chyfleoedd arbedion. Dyddiad cwblhau targed: Mehefin 2025	Wedi'i gwblhau.

3 Ymateb y rheolwyr i'n hargymhellion

Cyf	Argymhelliad	Sylwadau ar gamau arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	I gryfhau llywodraethu a thryloywder, dylai'r Ymddiriedolaeth gofnodi ac adrodd yn ffurfiol unrhyw bapurau Bwrdd neu bwyllgor a gyflwynir ar ôl y terfyn amser cyhoeddi o 5 diwrnod fel achos o ddiffyg cydymffurfiaid â'i Rheolau Sefydlog (Paragraff 12).	Derbyniwyd. Bydd hyn yn cael ei adrodd ar ffurf adroddiad llywodraethu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o fis Mawrth 2026. Yn cynnig cwblhau'r cam hwn pan fydd yr adroddiad yn cael ei ychwanegu at gylch busnes y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae'r cylch hwnnw yn cael ei gymeradwyo gan y pwyllgor.	Mawrth 2026	Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/ Ysgrifennydd y Bwrdd
A2	Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiweddarau ei pholisi ar bolisiâu i wneud y broses adolygu yn fwy effeithlon ac ymarferol. Dylai hyn gynnwys camau a dulliau mwy eglur i droi polisiâu yn fathau eraill ddogfennau rheoli ysgrifenedig (fel gweithdrefnau neu ganllawiau), pan fo hyn yn adlewyrchu eu diben a'u defnydd yn well (Paragraff 14).	Derbyniwyd. Bydd rhaglen trawsnewid polisi yn cael ei gwmpasu yn Ch4 2025/26. Bydd y rhaglen honno yn cael ei hadolygu wedyn gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn Ch1 2026/27 ac yn cael ei goruchwyllo ganddynt wedi hynny. Yn cynnig cwblhau'r eitem hon pan fydd y rhaglen honno wedi cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a bod gweithrediad ac	Gorffennaf 2026	Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/ Ysgrifennydd y Bwrdd

Cyf	Argymhelliad	Sylwadau ar gamau arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
		amserlenni wedi'u cytuno ar gyfer eu monitro'n barhaus.		
A3	I gryfhau trosolwg o risg strategol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod papurau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnig crynodeb eglur, lefel uchel o newidiadau i sgoriau risg dros amser. Dylai hyn gael ei atodi gan olwg gyfredol ar gamau cysylltiedig, gan gynnwys eu statws presennol ac unrhyw lithriant (Paragraff 30).	Derbyniwyd. Mae'r crynodeb o newidiadau i sgoriau risg wedi'i gynnwys ym mhapurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a bydd yn cael ei ymgorffori ym mhapurau'r pwyllgorau. Mae diweddariadau o ran camau wedi'u hamlygu ym mhob un o'r prif risgiau yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar hyn o bryd, ond bydd adran yn cael ei hychwanegu at y SBARN risgiau i gynnwys sylwadau lefel uchel ar statws camau.	Ebrill 2026	Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/ Ysgrifennydd y Bwrdd
A4	I sicrhau ei bod yn dal yn bosibl cyflawni'r Cynllun Ansawdd Strategol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bbod y sicrwydd a ddarperir i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch yn cwmpasu effaith cyllid a staffio ar weithrediad. Dylai hyn gynnwys diweddariadau ar ba un a yw'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar gyflawni camau a	Cytunwyd. Yn cynnig bod y cam hwn yn cael ei gwblhau ar ôl dwy rownd o adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch	Gorffennaf 2026	Y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio

Cyf	Argymhelliad	Sylwadau ar gamau arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau arfaethedig	Swyddog cyfrifol (teitl)
	gynlluniwyd a chanlyniadau strategol (Paragraff 36).			

4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Fframwaith sicrwydd y Bwrdd	Mae fframwaith sicrwydd y Bwrdd yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a'r rheolaethau a'r sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny.
Cynllun Clinigol	Cynllun hirdymor sy'n helpu i lunio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu cynllunio a'u darparu i ddiwallu anghenion cleifion a chymunedau yw Cynllun Clinigol.
Cofrestr Risg Gorfforaethol	Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi risgiau sylweddol y sefydliad (naill ai'r rhai sydd â sgoriau uchel neu effaith sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd ar waith i'w rheoli.
Gwrth-dwyll	Mae gwrth-dwyll yn cyfeirio at y gweithgarwch a gyflawnir gan y sefydliad i atal, canfod ac ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Wasanaeth Atal Twyll yn y GIG Cymru, sy'n gweithredu o dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Term	Disgrifiad
Cynllun Tymor Canolig Integredig	Cynllun tair blynedd sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol i adennill costau yw Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.
Colledion	Mae colledion yn cynnwys pethau fel lladrad, twyll, gordaliadau, neu ddifrod i eiddo.
Llywodraethu Ansawdd	Llywodraethu ansawdd yw'r cyfuniad o strwythurau, prosesau ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain a sicrhau perfformiad o ansawdd uchel, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad cleifion.
Cofrestr Buddiannau	Mae'r Gofrestr Buddiannau yn helpu i sicrhau tryloywder trwy gofnodi unrhyw fuddiannau personol neu fusnes aelodau'r Bwrdd a staff a allai ddylanwadu ar benderfyniadau.
Cynllun Cadw a Dirprwyo	Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo yn nodi pa gyfrifoldebau sy'n aros gyda'r Bwrdd a pha rai sy'n cael eu trosglwyddo i bwyllgorau a swyddogion gweithredol, ynghyd â threfniadau adrodd i sicrhau goruchwyliaeth briodol.

Term	Disgrifiad
Gweithred Tendr Sengl	Gweithred Tendr Sengl yw pan fydd sefydliad yn prynu nwyddau neu wasanaethau gan un cyflenwr heb fynd trwy broses gystadleuol, fel rheol oherwydd mai dim ond un opsiwn addas sydd ar gael neu fod angen brys.
Taliadau Arbennig	Taliadau untro a wneir mewn sefyllfaoedd anarferol – fel iawndal neu arwydd o ewyllys da – sydd y tu allan i weithgarwch busnes arferol y sefydliad yw taliadau arbennig.
Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog	Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn nodi'r cyfrifoldebau, y polisiau a'r gweithdrefnau ariannol a fabwysiadwyd gan y sefydliad.
Rheolau Sefydlog	Mae rheolau sefydlog yn nodi'r rheolau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau yn unol â nhw.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)	Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n gynaliadwy ac ar y cyd i wella llesiant ar draws meysydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, drwy osod nodau hirdymor (a elwir yn amcanion llesiant), cynnwys dinasyddion, a gwneud penderfyniadau sy'n ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.